**DEDDF IECHYD ANIFEILIAID 1981**

**GORCHYMYN TWBERCWLOSIS (CYMRU) 2010 (O.S.2010/1379) (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**TRWYDDED GYFFREDINOL I SYMUD ANIFEILIAID BUCHOL O SIOE AMAETHYDDOL HEB EI HEITHRIO YNG NGHYMRU NAD YDYNT WEDI CAEL PRAWF TWBERCWLOSIS CYN SYMUD**

Yn unol ag erthyglau 13, 13A a 23 o Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), mae Gweinidogion Cymru drwy'r drwydded gyffredinol hon, yn awdurdodi symud gwartheg o sioe amaethyddol heb ei heithrio yng Nghymru, sydd heb gael prawf croen cyn symud neu brawf croen ar ôl symud gyda chanlyniadau prawf negyddol, dim mwy na 60 diwrnod cyn symud, cyn belled ag y cedwir at amodau'r drwydded hon.

Daw'r drwydded hon i rym am 00.01 o'r gloch ar Ebrill 27ain 2024

Llofnodwyd gan ..........................
O dan awdurdod y Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Ysgrifenyddion Cabinet Cymru

Dyddiad: Ebrill 26ain 2024

**Amodau:**

1) Daw'r anifeiliaid yn wreiddiol o fuches y tu allan i Ardal TB Risg Isel yn Lloegr, neu'r Alban

2) Ni chaniateir symud anifeiliaid buchol i'r eiddo nac oddi yno os bydd symudiad o'r fath yn groes i gyfyngiadau sydd mewn grym oherwydd clefyd hysbysadwy arall adeg y symud arfaethedig.

3) Mae mynd yn groes i amodau'r drwydded hon yn drosedd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Nodiadau

i) Y "Gorchymyn" yw Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2019 (O.S.2010/1379) (fel y'i diwygiwyd).

ii) Diffinnir sioe amaethyddol sydd wedi'i heithrio fel sioe lle na chaiff unrhyw wartheg aros ar faes y sioe am gyfnod o fwy na 24 awr neu gael eu cadw ar faes y sioe (hynny yw, cael eu cadw mewn unrhyw safle dan do heb ochrau iddo, gan gynnwys pebyll o unrhyw fath neu faint).

iii) Mae gwartheg yn y cyd-destun hwn yn golygu gwartheg domestig o'r genws Bos, byfflo neu bison.

iv) O dan Erthygl 13 o'r Gorchymyn:

(1) Ni chaiff unrhyw un symud gwartheg o unrhyw eiddo oni bai:
(a) bod prawf croen wedi'i gynnal arnynt ddim mwy na 60 niwrnod cyn dyddiad eu symud; a
(b) bod archwilydd neu filfeddyg cymeradwy wedi darllen canlyniadau'r prawf a bod y canlyniadau'n negyddol.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i-
(a) loi o dan 6 wythnos oed ar ddiwrnod eu symud;
(b) gwartheg sy'n cael eu symud i gael triniaeth filfeddygol - cyn belled â'u bod yn dod yn ôl yn syth i'r safle y daethant ohono ar ôl y driniaeth, neu eu bod yn cael eu lladd neu'n cael eu hanfon yn syth i'r lladd-dy;
(c) unrhyw symudiadau a nodwyd yn Atodlen 2; ac
**(ch) unrhyw symudiad a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.**

v) Gellir dod o hyd i fap o ardaloedd risg Prydain Fawr yn: Map Achosion TB Buchol - Ardaloedd Risg, Prydain Fawr | Hwb TB

vi) Nid yw'r drwydded hon yn caniatáu i anifeiliaid adael sioe nad yw wedi ei heithrio yng Nghymru, heb brawf cyn symud clir, os ydynt yn tarddu o ardaloedd ym Mhrydain ac eithrio Ardal Risg Isel Lloegr, neu'r Alban. Rhaid i geidwaid a threfnwyr sioeau , felly, sicrhau bod prawf cyn symud clir dilys yn cynnwys yr holl gyfnod o gyrraedd i adael y sioe.

vii) Manylion cyswllt yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion:

Cyfeiriad: Gwasanaethau Maes Cymru/Gwasanaethau Maes Cymru, Swyddfeydd Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN Ffôn/Ffôn: 0300 303 8268.